



Monitor Annibynnol

Adroddiad Blynyddol 2018



Cyflwyniad

Dyma chweched Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol (IM) ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod Ionawr - Rhagfyr 2018. Fy rhagflaenydd, Simon Pountain oedd y Monitor Annibynnol o Ionawr - Medi 2018, a chefais fy mhenodi i'r swydd ar 1^{af} Hydref 2018.

Dymunaf ddiolch o waelod calon i Simon Pountain a benodwyd i swydd y Monitor Annibynnol yn 2012 fel y'i diffinir o dan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (a'r newidiadau cyfatebol yn Neddf yr Heddlu 1997). Darparodd Simon wasanaeth cyhoeddus ymroddedig a thrylwyr yn ystod ei chwe blynedd yn y swydd.

Yn Adroddiad Blynyddol 2017, ni wnaeth fy rhagflaenydd unrhyw argymhellion ar gyfer newid. Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cartref at y Monitor Annibynnol ar 17^{eg} Medi 2018 gyda'i ymatebion i argymhellion blaenorol ac ychwanegwyd copi o'r llythyr hwnnw at Adroddiad Blynyddol 2017.

Nid oes unrhyw argymhellion newydd yn Adroddiad Blynyddol 2018 ac mae diweddariad ar argymhellion blaenorol wedi'i gynnwys.

Trosolwg o'r flwyddyn

Atgyfeiriadau.

Cyfanswm y nifer o achosion datgelu a ddadleuir a dderbyniwyd gan y Monitor Annibynnol yn 2018 oedd 166, sy'n cymharu â'r 237 achos a dderbyniwyd yn 2017. Dengys hyn ostyngiad sylweddol yn y nifer o atgyfeiriadau am anghydfod at y Monitor Annibynnol sy'n parhau tuedd a arsylwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Gogledd Iwerddon

Ymestynnodd Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015 rôl y Monitor Annibynnol i gynnwys adolygu anghydfodau datgelu a wneir yng Ngogledd Iwerddon. Ni wnaed unrhyw atgyfeiriadau at y Monitor Annibynnol gan Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon yn 2018.

Fel rhan o'm rôl fel y Monitor Annibynnol rwyf wedi adolygu sampl o achosion eleni o Gogledd Iwerddon lle mae'r heddlu naill ai wedi datgelu neu heb ddatgelu gwybodaeth. Roedd rhai pwyntiau dysgu, ond ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol. Mae adborth manwl o'r ymarfer hwn wedi cael ei ddarparu i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

2 Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol 2018

Adolygiadau Barnwrol

Adolygiad Barnwrol yw'r hawl terfynol sydd ar gael i unrhyw un sy'n anghytuno â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu ar eu Tystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol.

Nid oedd unrhyw Adolygiad Barnwrol yn cynnwys y Monitor Annibynnol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Argymhellion o Adroddiadau Blynyddol Blaenorol y Monitor Annibynnol

Mae tabl yn Atodiad A yn crynhoi holl argymhellion blaenorol y Monitor Annibynnol.

Ceir crynodeb o'r argymhellion sy'n weddill isod:

Adroddiad Blynyddol 2014:

Gwnaeth y Monitor Annibynnol argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol 2014:

'Cyflwyno amserlen ffurfiol (o dri mis) ar gyfer ymgeisydd i anghytuno â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol.'

Adroddiad cynnydd

Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn a sylwaf ei fod yn dal i gael ei gefnogi gan randdeiliaid. Fodd bynnag, byddai cyflawni newid ffurfiol i'r broses anghydfod fel hyn yn gofyn am newid i'r ddeddfwriaeth sylfaenol. O ganlyniad, ni ellir symud yr argymhelliad hwn ymlaen nes y bydd cyfle addas yn codi i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol drwy Ddeddf Seneddol.

Yn y cyfamser, fel yr adroddwyd mewn Adroddiadau Blynyddol blaenorol, cyflwynodd fy rhagflaenydd broses strwythuredig i ddelio â'r math hwn o achos. Dywedir bod y broses hon wedi lleihau'r galw ar unedau datgelu'r heddlu. Fodd bynnag, cydnabyddir o hyd y byddai datrysiad hirdymor, a gefnogir gan ddeddfwriaeth yn fanteisiol. Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yn gyfredol.

Adroddiad Blynyddol 2015

Gwnaeth y Monitor Annibynnol argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol 2015 fel a ganlyn:

'Dylid ychwanegu'r heddlu at y rhestr o asiantaethau sy'n gallu cael mynediad at drawsgrifiadau o achosion llys heb orfod ceisio caniatâd barnwr yr achos. Achosodd hyn oedi wrth gael trawsgrifiadau a chyfeiriwyd at hynny gan yr ymgeiswyr yn eu cyflwyniadau.'

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref sylw ar yr argymhelliad hwn yn ei lythyr wedi'i ddyddio 17eg Medi 2018:

"Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn. Fel y gwyddoch, y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n arwain ar bolisi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Rwyf wedi gofyn i swyddogion gydweithio ag arweinydd Datgelu'r NPCC, i ystyried a yw hyn yn rhywbeth a fyddai o fudd i ddatgeliadau'r heddlu ac, os felly, ofyn i'r NPCC ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref dros Gyfiawnder i gyflwyno'r ddadl."

Adroddiad Cynnydd

Mae ymchwil pellach wedi adnabod bod rhai asiantaethau trawsgrifiadau llys yn camddehongli'r canllawiau cyfreithiol a gweithdrefnol mewn perthynas â mynediad yr heddlu at drawsgrifiadau llys. Mae canllawiau wedi cael eu hailgyhoeddi i'r asiantaethau trawsgrifio a disgwylir y bydd hyn yn datrys y mater.

Gwnaeth y Monitor Annibynnol ail argymhelliad yn Adroddiad Blynyddol 2015:

'Bod trafodaeth ffurfiol yn cael ei chynnal rhwng rhanddeiliaid o fewn y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), y Swyddfa Gartref a'r heddlu, er mwyn datblygu ymdriniaeth fwy cyson tuag at ddatgeliadau trydydd parti drwy ddatblygu cyfarwyddyd manylach'.

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cartref sylw ar yr argymhelliad hwn ar 17eg Medi 2018:

"Eich ail argymhelliad yw y dylid defnyddio dull mwy cyson yng nghyswllt datgeliadau trydydd parti drwy ddatblygu cyfarwyddyd manylach. Unwaith eto, rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn. Deallaf eich bod yn cwrdd yn rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r arweinydd ar Ddatgeliadau yng Nghyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, ac felly ymddengys mai chi yw'r person gorau i drafod a chytuno ar ddull mwy cyson y gellid ei adlewyrchu mewn cyfarwyddyd."

Adroddiad Cynnydd

Yn 2018 codwyd 30 o anghydfodau â'r Monitor Annibynnol mewn perthynas â datgeliadau trydydd parti. Mae hyn yn cynrychioli 18% o holl achosion adolygu'r Monitor Annibynnol ar gyfer y flwyddyn. Fel y Monitor Annibynnol newydd, rwyf wedi trafod yr argymhelliad hwn â'r DBS, y Swyddfa Gartref, cynrychiolwyr o wasanaeth yr heddlu a rhanddeiliaid eraill ac wedi dod i gytundeb bod yr argymhelliad hwn yn dal yn berthnasol. Mae arweinydd ar Ddatgeliadau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a chynrychiolwyr o'r Swyddfa Gartref mewn trafodaethau ynglŷn â phryderon cyfredol ac yn ceisio sicrhau ymdriniaeth fwy cyson tuag at ddatgeliadau trydydd parti.

Ymgysylltu

Ers fy mhenodiad fel Monitor Annibynnol ym mis Hydref 2018, rwyf wedi bod yn ymweld â nifer o unedau datgelu'r heddlu a swyddfeydd y DBS yn Lerpwl a Darlington, sy'n delio â gwaith achos datgelu a gwahardd yn eu tro. Rwy'n parhau i ymgysylltu â chynifer o randdeiliaid ag sy'n bosibl drwy fynychu cyfarfodydd Datgelu Rhanbarthol a Chenedlaethol yr heddlu, ynghyd â chyfarfodydd Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu yn rheolaidd. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr polisi a gweithredol o'r Swyddfa Gartref, DBS, ANI, NPCC ac unedau datgelu'r heddlu er mwyn adnabod unrhyw faterion neu bryderon.

Samplo achosion

Rwyf wedi ymgymryd ag ymarfer sampl o anghydfodau 2018 fel sy'n ofynnol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997. Ceir yn y sampl achosion yn cynnwys y rhai lle'r oedd yr heddlu wedi datgelu gwybodaeth yn ogystal â'r rhai pan oeddynt wedi dewis peidio â datgelu gwybodaeth.

Yn ei Adroddiad Blynyddol 2017 nododd fy rhagflaenydd mai ei fwriad yn 2018 oedd ystyried hap sampl achosion yn ôl thema neu alwedigaeth. Rwyf wedi dilyn yr argymhelliad hwn, gan gynnwys yn yr achosion sampl sy'n ymwneud â: gyrru tacsï, datgeliadau trydydd parti a phobl sy'n dioddef salwch meddwl.

Rwyf wedi samplu cyfanswm o bum deg o achosion Datgeliadau Manwl. Darparwyd yr achosion hyn gan bump o luoedd heddlu gwahanol, gan gynnwys Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon.

Ar ôl ystyried pob achos yn ofalus, mae adborth wedi cael ei roi i'r lluoedd heddlu dan sylw. O'r achosion a samplwyd yn 2018, adnabuwyd rhai pwyntiau dysgu ar gyfer arfer gorau, ond dim materion sylweddol. Rwyf wedi rhannu'r holl wersi cyffredinol perthnasol a ddysgwyd o'r ymarfer sampl hwn ar lefel cenedlaethol drwy Grŵp Portffolio Datgelu'r Heddlu ac yn fwy lleol drwy'r Fforwm Datgelu Rhanbarthol.

Argymhellion

Nid oes gennyf unrhyw argymhellion newydd i'w gwneud eleni.

Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr ymroddiad a gwaith caled Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol sy'n gweinyddu llwyth gwaith y Monitor Annibynnol ac yn darparu cymorth cyffredinol i swyddfa'r Monitor Annibynnol.

Crynodeb a Chasgliad

Cefais fy mhenodi fel y Monitor Annibynnol newydd ym mis Hydref 2018.

Atgyfeiriwyd cyfanswm o 166 o achosion at y Monitor Annibynnol i'w hadolygu yn 2018. Darperir dadansoddiad llawn o sut y cafodd yr achosion hyn eu dwyn i ben.

Nid oes unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn.



Julia Wortley

Monitor Annibynnol

Pwerau y mae'r Monitor Annibynnol yn gweithredu ynddynt

Mae'r Monitor Annibynnol yn cael ei benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 119B Deddf yr Heddlu 1997 ac mae ganddo ddwy ddyletswydd statudol yn ymwneud â datgelu gwybodaeth ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol unigolyn.

Yn unol ag adran 119B Deddf yr Heddlu 1997, rhaid i'r Monitor Annibynnol adolygu sampl o achosion lle mae gwybodaeth pan na fu collfarn gan yr heddlu yn cael ei chynnwys, neu nad yw'n cael ei chynnwys, ar Dystysgrifau Manwl o Gofnod Troseddol o dan adran 113B (4) y Ddeddf. Diben yr adolygiadau hyn yw sicrhau cydymffurfiaid ag Arweiniad Statudol y Swyddfa Gartref ar ddatgelu ac Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR).

Dan adran 117A Deddf yr Heddlu 1997, mae gan y Monitor Annibynnol rôl wrth ystyried yr achosion hynny pan fydd person yn credu bod yr wybodaeth sy'n cael ei datgelu gan yr heddlu ar Dystysgrif Fanwl o Gofnod Troseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd naill ai yn amherthnasol i'r gweithlu y mae'n ymgeisio ar ei gyfer, neu na ddylid ei datgelu.

Pan wneir cais am Dystysgrif fanwl, mae manylion ymgeisydd yn cael eu cyfeirio at unrhyw lu heddlu a allai fod â gwybodaeth am yr ymgeisydd. Mae hyn yn galluogi i'r llu heddlu wirio eu cofnodion am unrhyw wybodaeth y maen nhw'n credu'n rhesymol sy'n berthnasol i'r diben penodol y mae'r Dystysgrif yn cael ei cheisio ac ystyried a ddylid ei datgelu. Yn dilyn penderfyniad gan yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth, os yw'r ymgeisydd yn dymuno anghytuno â'r datgeliad, gall yn gyntaf, wneud cais am adolygiad gan y llu heddlu perthnasol. Os yw'n dal yn anfodlon â'r canlyniad, gall yr ymgeisydd yna wneud cais i'r Monitor Annibynnol am adolygiad annibynnol o'i achos.

Gweithrediad yr Ysgrifenyddiaeth a swyddogaeth y Monitor Annibynnol

Cyflwynwyd cyfrifoldeb y Monitor Annibynnol i adolygu atgyfeiriadau lle mae ymgeisydd yn anghytuno â'r wybodaeth a ddatgelir gan luoedd heddlu gan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2012 (PoFA). Sefydlwyd Ysgrifenyddiaeth fechan i gefnogi'r Monitor Annibynnol i berfformio'r swyddogaeth hon ym mis Hydref 2012 ac mae bellach yn cynnwys dau aelod o staff llawn amser.

Cyn Hydref 2012 a'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yr unig hawl apelio oedd gan unrhyw un a oedd yn anfodlon â chywirdeb yr wybodaeth a oedd yn ymddangos ar ei Dystysgrif fanwl oedd i Brif Gwnstabl y llu perthnasol. Os oedd yr ymgeisydd yn anfodlon â chanlyniad hyn neu eiriad cyffredinol y testun yna ei unig ddewis oedd ceisio Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad datgelu. Byddai gweithredu o'r fath yn gostus i'r ymgeisydd a'r DBS o ran amser ac adnoddau. Mae rôl y Monitor Annibynnol bellach yn gweithredu fel haen adolygu ychwanegol cyn i'r unigolyn droi at Adolygiad Barnwrol.

Ers ei chreu ym mis Medi 2012 hyd at ddiwedd Rhagfyr 2018, mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi derbyn cyfanswm o 1,702 o atgyfeiriadau.

Mae papurau achos yn cynnwys Tystysgrif ddatgelu a ddarparwyd gan y DBS, gydag unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig a dogfennau ategol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

Unwaith y mae achos yn cael ei dderbyn, bydd Ysgrifenyddiaeth y Monitor Annibynnol yn gofyn i'r heddlu am wybodaeth yn ymwneud â'r achos ac i'r ymgeisydd am unrhyw sylwadau ychwanegol y mae'n dymuno eu gwneud. Ar ôl derbyn unrhyw sylwadau pellach mae'r achos yn cael ei gyflwyno i'r Monitor Annibynnol i'w adolygu.

6 Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol 2018

Wrth adolygu apêl, mae'r Monitor Annibynnol yn dilyn y Cyfarwyddyd Statudol ac yn ystyried:

1. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn gywir
2. A yw'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol i ddiben penodol ceisio'r dystysgrif (ers 2012 mae hyn bellach yn gyffredinol ar gyfer gwaith o fewn gweithluoedd plant neu oedolion yn hytrach nac yn benodol i rôl arbennig); ac
3. A ddylai'r wybodaeth gael ei datgelu, gan gynnwys;
 - a. Beth yw nod cyfreithlon y datgelu
 - b. A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i gyflawni'r nod cyfreithlon hwnnw; ac
 - c. A yw'r datgeliad yn gymesur, yn bwrw cydbwysedd teg rhwng hawliau'r ymgeisydd a hawliau'r rheini y mae'r datgeliad yn ceisio'u hamddiffyn.

Mae'r holl feini prawf yn cael eu hystyried yn gyfartal, nid oes pwysoli. Unwaith y mae'r Monitor Annibynnol wedi dod i benderfyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at yr ymgeisydd, y DBS a Phrif Swyddog yr heddlu perthnasol yn eu hysbysu o benderfyniad y Monitor Annibynnol.

Yn ychwanegol at ddarparu penderfyniadau ar geisiadau am adolygiad o ddatgeliad Prif Swyddog o wybodaeth gymeradwy, mae'r Monitor Annibynnol yn ymgymryd ag ymarfer samplu ac adolygu o achosion datgelu yn unol ag adran 119B (5) Deddf 1997. Yn dilyn yr adolygiadau 'hap samplu' hyn, mae'r Monitor Annibynnol yn rhoi adborth i luoedd i sicrhau ansawdd a chydymffurfiad â Chyfarwyddyd Statudol.

Eglurhad

Mae rôl y Monitor Annibynnol yn wahanol i rôl yr Adolygydd Cwynion Annibynnol (ICR) ar gyfer y DBS. Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol yn adolygu cwynion am y DBS ac yn cynnig cyngor adeiladol am y ffordd y mae'r DBS yn delio â chwsmeriaid a sut y mae'r DBS yn trin cwynion.


Fel penodai statudol, rôl y Monitor Annibynnol yw ystyried apeliadau gan ymgeiswyr sy'n anghytuno â chynnwys gwybodaeth pan na fu collfarn ar Dystysgrifau datgelu manwl a gyhoeddir gan y DBS. Mae angen Tystysgrifau o'r fath ar gyfer y rheini sy'n dymuno gweithio gyda phlant ac oedolion bregus ac mewn rhai meysydd penodol eraill megis gyrru tacsï.

Atgyfeiriadau Achosion y Monitor Annibynnol: Crynodeb 2018

Dengys y siart isod y nifer o atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn 2018 a sut y gwnaeth y Monitor Annibynnol eu datrys. Dangosir y ffigurau mewn modd sy'n cymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae 'cadarnhau' yn cyfeirio at yr achosion hynny lle mae'r Monitor Annibynnol wedi cefnogi datgeliad yr heddlu yn llwyr.


Siart 1



Nodyn 1. Mae ffigurau terfynol wedi cael eu diweddaru o adroddiad y llynedd gan fod nifer fechan o achosion 2015 a 2017 yn dal yn aros am adolygiad pan gyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2017.

Mae'r siart a ganlyn yn dadansoddi'r categori 'canlyniad arall' uchod i ddangos y ffordd y daethpwyd â'r achosion i ben.

Siart 2



Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r Monitor Annibynnol yn 2018. Gall y gostyngiad hwn mewn anghydfodau fod yn ganlyniad penderfyniadau o ansawdd uwch a chyson gan luodd heddlu.

Mae polisi blaenorol y Monitor Annibynnol o beidio ag adolygu'r achosion hynny pan fydd yr her yn cael ei chyflwyno ymhen cyfnod sylweddol ar ôl i'r datgeliad gael ei wneud a phan na fydd y diben a nodwyd yn bodoli bellach neu ei bod yn rhesymol credu bod hynny'n wir.

Mae rhai achosion lle gellid egluro'r wybodaeth a ddatgelir drwy ddiwygiad. Yn yr achosion hyn, bydd y Monitor Annibynnol yn trafod gyda'r Prif Swyddog i gytuno ar eiriad wedi'i ddiwygio. Caiff yr achosion hyn eu categorioedd uchod fel 'diwygiedig'.

8 Adroddiad Blynyddol y Monitor Annibynnol 2018

Mae'r Monitor Annibynnol wedi gwrthod adolygu 5 achos eleni allan o gyfanswm o 166 anghydfod. Yn un o'r achosion hyn, lle'r oedd diben y datgeliad gwreiddiol wedi cael ei ateb, roedd yr ymgeisydd yn ymgeisio am gyflogaeth ddilynol ac roedd hyn yn gofyn am Dystysgrif newydd. Mewn achos arall, roedd yr ymgeisydd wedi'i wahardd rhag gweithio gan ei gorff rheoleiddio proffesiynol ei hun. Gwnaeth un ymgeisydd dynnu ei gais am swydd yn ôl ac yn y ddau achos olaf, roedd yr ymgeiswyr wedi cael Tystysgrif ddilynol ac nid oedd adolygiad yn angenrheidiol mwyach.


Yn gynnar yn 2018, cafodd sawl achos eu dychwelyd i'w lluoedd heddlu gwreiddiol gan y Monitor Annibynnol i'w hailystyried, yn dilyn canlyniad dau adolygiad barnwrol, sef: SD v Chief Constable of North Yorkshire [2017] EWCA Civ 1838 a LG v The Independent Monitor [2017] EWHC 3327. Mae holl achosion 2017 a 2018 bellach wedi cael eu hadolygu a'u dirwyn i ben gan y Monitor Annibynnol.

Gweithluoedd

Mae'r siart a ganlyn yn darparu cymhariaeth o'r gweithluoedd perthnasol y mae'r ymgeiswyr wedi ymgeisio amdanynt.

Dengys y siart fod y gyfran o achosion ym mhob gweithlu yn parhau'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae mwyafrif yr heriau gan ymgeiswyr sydd wedi ymgeisio i weithluoedd Plant ac Oedolion. Mae'n parhau yn wir y gall mwy o wybodaeth gael ei hystyried gan yr heddlu yn yr achosion hyn oherwydd cludadwyedd y dystysgrif.

Siart 3



Nodyn: Ni chofnodwyd unrhyw heriau yn y categori 'Gweithlu arall' yn 2012 na 2013 gan fod Gyrwyr Tacsî yn cael eu hystyried yn rhan o'r gweithlu Plant yn ystod y blynyddoedd hynny.

Atodiad A. Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad blynyddol 2017.



Victoria Atkins AS
Gweinidog dros Ddiogelu a Bregusrwydd
Gweinidog dros Fenywod

2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF
www.gov.uk/home-office

Julia Wortley Monitor
Annibynnol
c/o Home Office Sponsorship Unit
2 Marsham Street
Llundain SW1P 4DF

Anfonwyd drwy e-bost

24 Medi 2019

Annwyl Julia,

Diolch am eich Adroddiad Blynyddol 2018 a fydd yn cael ei gyhoeddi ar GOV.UK yn fuan. Llwyddodd eich adroddiad i roi cipolwg defnyddiol ar ddatgelu gwybodaeth yr heddlu ar dystysgrifau cofnodion troseddol manwl (ECRCs) a'ch gwaith gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys unedau datgelu rhanbarthol a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, i ddatblygu cysondeb wrth weithredu.

Sylwaf nad ydych wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn yr adroddiad hwn, ond eich bod wedi ailadrodd y rhai a wnaed gennych yn y gorffennol. Ar ôl ystyried y rhain, rwyf wedi nodi ein hymateb isod.

Cyfyngiad Amser i Herio Datgeliadau

Fel y gwyddoch, bydd eich argymhelliad i gyflwyno cyfyngiad amser ar gyfer herio datgeliadau yn gofyn am ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Bydd yr argymhelliad yn cael ei ystyried os bydd cyfle addas yn codi i ddiwygio'r deddfwriaeth berthnasol, fodd bynnag, rwyf wedi nodi bod y broses a roddwyd ar waith fel datrysiad dros dro gan y Monitor Annibynnol blaenorol yn effeithiol.

Datgeliadau Trydydd Parti

Rwy'n parhau i gefnogi'r argymhelliad y dylid defnyddio dull mwy cyson yng nghyswllt datgeliadau trydydd parti drwy gyfarwyddyd manylach. Gallaf eich cadarnhau bod fy swyddogion polisi yn ystyried y mater hwn gydag arweinydd datgelu'r NPCC a chydweithwyr y DBS, a byddaf yn rhoi'r diweddaraf i chi ynglŷn â'r materion hyn.

Diolchaf i chi am eich gwaith pwysig ers dechrau yn y swydd ym mis Hydref 2018.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink that reads "Victoria Atkins". The signature is written in a cursive, flowing style.

Victoria Atkins AS

Atodiad B: Tabl o argymhellion blaenorol

Argymhelliad	Blwyddyn y'i gwnaed	Statws	Sefyllfa bresennol
Iechyd Meddwl	2013	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Cyhoeddwyd y cyfarwyddyd statudol diwygiedig yng nghyswllt achosion Iechyd Meddwl ym mis Awst 2015.
Galwedigaethau yn y Cartref	2013	Wedi'i dderbyn yn rhannol	Wedi'i gwblhau Diwygiodd y DBS gyfarwyddyd yr ymgeisydd a RB yn 2015 a hyrwyddo hyn yn Newyddion y DBS.
Gweithlu v Swydd yr Ymgeisiwyd Amdani	2013	Heb ei dderbyn	Mater wedi'i godi eto yn Adroddiad Blynyddol 2014 gyda'r ymateb blaenorol wedi cael ail-ddweud.
Cyrff Cofrestredig	2013	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Gweithiodd y DBS gyda NACRO a CIPD i ddatblygu arweiniad ar gyfer cyflogwyr ar sut i drin ac asesu gwybodaeth sy'n ymddangos ar dystysgrif ddatgelu.
Cyfyngiad Amser Statudol ar gyfer heriau	2014	Wedi'i dderbyn ac yn aros i'w ddatblygu ymhellach.	Yn parhau Angen deddfwriaeth sylfaenol i'w symud ymlaen.
Proses ffurfiol i adolygu argymhellion	2014	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Strwythur cyfarfod mewn grym.
Unedau Datgelu'r Heddlu i gael mynediad at Drawsgriadau Llys	2015	Wedi'i dderbyn	Wedi'i gwblhau Polisi a chyfarwyddyd wedi'u hailgyhoeddi i ddarparwyr trawsgrifiadau llys.
Datblygu cyfarwyddyd ar Ddatgeliadau Trydydd Parti	2015	Wedi'i dderbyn ac yn aros i'w ddatblygu ymhellach.	Yn parhau Yn disgwyl ystyriaeth bellach gan arweinydd datgelu'r NPCC a'r Swyddfa Gartref.